Os oes gwirfoddolwyr yn rhan o'ch mudiad, mae'n bwysig eich bod yn rhoi polisi gwirfoddoli ar waith. Gall y polisi hwn roi fframwaith i'ch mudiad ar gyfer sefydlu rhaglen wirfoddoli. Bwriad polisi gwirfoddoli yw sicrhau cydlyniad cyffredinol i'r holl bolisïau a gweithdrefnau amrywiol sy'n effeithio ar wirfoddoli, er enghraifft recriwtio, treuliau, iechyd a diogelwch ac yn y blaen. Bydd hefyd yn helpu i ddiffinio rôl gwirfoddolwyr o fewn y mudiad a sut gallant ddisgwyl gael eu trin.

Mae gan bawb yr hawl i wirfoddoli ac i gael profiad cynhyrchiol sy'n rhoi boddhad mawr. Diben y polisi gwirfoddoli enghreifftiol hwn yw helpu mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr i fwynhau profiad cadarnhaol cyffelyb. Gellir ei ddefnyddio i ddatblygu eich polisi eich hun ar gyfer eich mudiad chi, ac mae croeso i chi ei addasu fel y bo'n briodol.

Polisi gwirfoddoli enghreifftiol

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer gweithredu gwirfoddol yn <*Enw'r mudiad*>. Mae'n berthnasol i bawb yn y mudiad, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff, aelodau, a'r rheini sydd wedi'u hethol neu'u penodi i swyddi cyfrifol.

Mae'r polisi hwn wedi'i gefnogi gan <*Bwrdd a.y.b. y mudiad*> a bydd yn cael ei adolygu <*rhowch amserlen*>, i sicrhau ei fod yn dal yn briodol i anghenion <*Enw'r mudiad*> a'i wirfoddolwyr.

Ymroddiad

Mae <*Enw'r mudiad*> yn cydnabod yr hawl sydd gan bobl i gymryd rhan ym mywydau eu cymunedau drwy wirfoddoli. Mae hefyd yn cydnabod bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu mewn nifer o wahanol ffyrdd, bod eu cyfraniad yn unigryw, ac y gall gwirfoddoli fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau, i staff, i gymunedau lleol ac i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Mae <*Enw'r mudiad*> yn gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr ac mae wedi ymrwymo i gynnwys gwirfoddolwyr mewn swyddogaethau priodol ac mewn ffyrdd sy'n annog ac yn cefnogi gwirfoddolwyr ac yn datblygu gwirfoddoli.

Mae <*Enw'r mudiad*> yn cydnabod ei gyfrifoldeb i drefnu ei wirfoddoli mewn modd effeithlon a sensitif fel y caiff y rhodd werthfawr, sef amser y gwirfoddolwr, ei defnyddio orau er lles pawb.

Diffiniad

Mae gwirfoddoli yn fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn elfen bwysig o ddemocratiaeth hefyd. Mae gwirfoddolwyr yn bobl sy'n cyfrannu eu hamser, eu hegni a'u sgiliau er budd y gymuned, a hynny yn ddi-dâl ac o'u gwirfodd.

Datganiad o werthoedd ac egwyddorion

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd dilys a hanfodol sy'n cael ei gefnogi a'i annog gan <*Enw'r mudiad*> ac ni fwriedir iddo gymryd lle gwaith cyflogedig. Mae rôl gwirfoddolwyr yn ategu rôl staff cyflogedig, ond nid yw'n cymryd ei lle.

Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod staff cyflogedig yn glir ynghylch rôl gwirfoddolwyr, ac i feithrin perthynas waith dda rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr.

Ni fydd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i wneud gwaith staff cyflogedig yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

Mae rôl y gwirfoddolwr yn berthynas rodd, yn rhwymedig mewn anrhydedd, ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth yn unig. Ni ellir gosod unrhyw rwymedigaethau, cytundebol neu fel arall, ar wirfoddolwyr i fod yn bresennol, i roi nac i gael lleiafswm amser i gyflawni'r tasgau sy'n ymwneud â'u gweithgareddau gwirfoddol. Yn yr un modd, ni ellir cymell y mudiad i ddarparu un ai gwaith rheolaidd neu dâl neu fudd arall am unrhyw weithgaredd a wna'r gwirfoddolwr.

Er bod gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser o'u gwirfodd a heb rwymedigaeth, gellir rhagdybio y ceir cydgefnogaeth a chyd-ddibyniaeth. Cydnabyddir cyd-ddisgwyliadau – yr hyn y mae'r mudiad yn ei ddisgwyl o wirfoddolwyr a'r hyn y mae gwirfoddolwyr yn ei ddisgwyl o'r mudiad.

Cydlynu Gwirfoddolwyr

Bydd gan bob gwirfoddolwr aelod o staff neu wirfoddolwr enwebedig i gynnig arweiniad a chyngor i'r gwirfoddolwr, i'w helpu i gyflawni tasgau yn effeithiol. Rhoddir gwybod i wirfoddolwyr â phwy y dylent gysylltu am gefnogaeth a goruchwyliaeth.

Cyfeirir yn benodol at 'gydlynu gwirfoddolwyr' ym mhob disgrifiad swydd perthnasol yn y mudiad.

Y deilydd swydd a enwebwyd i fod yn bennaf gyfrifol am ddatblygiad gweithgareddau gwirfoddol yn y mudiad yw <*enw a swydd*>. Mae'r unigolyn hwn yn gyfrifol am reoli gwirfoddolwyr y mudiad, ac am eu lles.

Recriwtio a Dethol

Mae <*Enw'r mudiad*> wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac mae'n credu y dylai gwirfoddoli fod yn agored i bawb, beth bynnag bo'u hoed, rhyw, ethnigrwydd, gallu, crefydd, a chredoau gwleidyddol. Derbynnir cymorth gwirfoddolwr ar gyfer rôl benodol ar sail teilyngdod, a'r unig faen prawf wrth ddethol fydd addasrwydd yr unigolyn i gyflawni'r tasgau y cytunwyd arnynt. Bydd gwybodaeth am y gwirfoddolwr nad yw'n berthnasol i sut y cyflawnir y tasgau gwirfoddoli dan sylw yn cael ei hanwybyddu gan y mudiad o ran recriwtio a dethol.

Bydd cyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu hyrwyddo'n eang fel eu bod ar gael yn hwylus i bob aelod o'r gymuned.

Bydd gwirfoddolwyr nad ydynt yn addas ar gyfer tasg benodol un ai'n cael cynnig cyfle arall i wirfoddoli gyda'r mudiad neu'n cael eu cyfeirio at y Ganolfan Wirfoddoli agosaf.

Gofynnir i bob gwirfoddolwr gyflwyno dau eirda, a bydd gofyn iddynt un ai gael Archwiliad Datgeliad Manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol a/neu fodloni'r gofynion i gofrestru gyda Chynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, os yw'r swydd yn cynnwys gweithio â phlant neu oedolion agored i niwed y diffinnir fel gweithgaredd rheoledig dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed. Byddant hefyd yn cael eu gwahodd i ddod i gyfweliad ffurfiol.

Bydd gan wirfoddolwyr ddisgrifiad cryno a chlir o'u tasgau a fydd yn cael ei adolygu bob <*nodwch gyfnod*>. Caiff y disgrifiadau o'r tasgau eu paratoi ar y cyd rhwng y gwirfoddolwr a'r unigolyn dynodedig y cyfeirir ato uchod.

Bydd gwirfoddolwyr newydd yn cael eu cyflwyno'n iawn i'r mudiad.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu briffio'n iawn ynghylch y gweithgareddau a wneir, a byddant yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn rhoi cyfle iddynt berfformio'n hyderus.

Hyfforddi a Datblygu

Bydd pob gwirfoddolwr yn cael gwybod am bolisïau perthnasol y mudiad, a bydd gan bob gwirfoddolwr fynediad atynt, gan gynnwys y polisïau hynny sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant a chyfle cyfartal.

Mae datblygu hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr yn un o brif flaenoriaethau'r mudiad er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ganddynt i gyflawni eu tasgau. Cyfrifoldeb yr unigolyn dynodedig y cyfeirir ato uchod fydd sicrhau y darperir yr hyfforddiant hwn. Cyfrifoldeb y gwirfoddolwr fydd mynychu'r hyfforddiant perthnasol.

Darperir hyfforddiant i reoli gwirfoddolwyr i'r staff hynny y mae ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol dros hyn.

Cefnogaeth, Goruchwyliaeth a Chydnabyddiaeth

Bydd gan bob gwirfoddolwr unigolyn cyswllt y gall fynd ato â'i bryderon ynghylch gwirfoddoli ac i ofyn am arweiniad a chefnogaeth.

Bydd gan wirfoddolwyr fynediad at gefnogaeth a goruchwyliaeth rheolaidd. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r gwirfoddolwr ac i'r goruchwyliwr nodi, monitro a gwerthuso cyfranogiad y gwirfoddolwr, cydnabod llwyddiannau a nodi anghenion hyfforddi unigol, gan gynnwys hyfforddi sy'n berthnasol i'w rôl wirfoddol benodol ac i'w ddatblygiad personol ehangach. Bydd pa mor aml y cynhelir y sesiynau hyn, am ba hyd ac ar ba ffurf, yn cael ei drafod rhwng y gwirfoddolwr a'r swyddog dynodedig y cyfeirir ato uchod.

Rhoddir y cyfle, lle bo hynny'n briodol, i wirfoddolwyr rannu eu barn gyda staff ehangach y mudiad, mewn cyfarfodydd staff a.y.b.

Bydd proses yn cael ei datblygu er mwyn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i gyfraniad gwirfoddolwyr y mudiad (e.e. gwobrau mewnol, erthyglau mewn papurau newydd a chylchlythyrau, llythyrau diolch a.y.b.) neu bydd proses sydd eisoes yn bodoli yn cael ei hamlinellu.

Treuliau

Mae <*Enw'r mudiad*> yn cydnabod ei bod yn bwysig ad-dalu'r costau teithio i leoliad y gwirfoddoli ac oddi yno, a'r costau eraill a geir wrth wirfoddoli, o safbwynt cyfle cyfartal. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad at gyfleoedd gwirfoddoli.

Gall gwirfoddolwyr y mudiad hawlio mân dreuliau rhesymol, ar yr amod bod ganddynt dderbynneb fel tystiolaeth o'r gwariant. Esbonnir yr hyn y gellir ei hawlio yn ôl gan y mudiad a sut mae cyfrifo treuliau i'r gwirfoddolwr cyn iddo ddechrau ar unrhyw weithgaredd sy'n debygol o achosi treuliau.

Mae gan y mudiad agwedd gyson at ad-dalu treuliau sydd yr un fath ar gyfer gwirfoddolwyr, staff a.y.b. fel y cymeradwyir gan Gyllid y Wlad.

Cyfrifoldeb yr unigolyn dynodedig y cyfeirir ato uchod yw rhoi gwybod i wirfoddolwyr am y weithdrefn ar gyfer ad-dalu treuliau.

Yswiriant

Mae polisïau yswiriant atebolrwydd y mudiad yn cynnwys gweithgareddau gwirfoddolwyr ac atebolrwydd drostynt.

Ni fydd y mudiad yn yswirio eiddo personol y gwirfoddolwr rhag colled neu ddifrod.

Cyfrinachedd

Bydd y mudiad yn rhoi gwybod i'r gwirfoddolwr am ei weithdrefnau a'i bolisi cyfrinachedd, lle bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol am y gwirfoddolwr sy'n cael ei dal gan y mudiad.

Datrys Anghydfodau

Mae'r mudiad yn ymdrechu i drin pob gwirfoddolwr yn deg, yn wrthrychol ac yn gyson. Mae'r mudiad yn ymdrechu i sicrhau bod barn gwirfoddolwyr yn cael ei chlywed, a'i nodi, ac y bydd gweithredu arni ar unwaith. Mae hefyd yn ymdrechu i ddod o hyd i ateb cadarnhaol a chyfeillgar sy'n seiliedig ar ganllawiau'r mudiad ar gyfer datrys anghydfodau.

Mae'r swyddog dynodedig y cyfeirir ato uchod yn gyfrifol am ddelio â phroblemau yn ymwneud ag ymddygiad neu gwynion y gwirfoddolwyr, a dylai'r rhain gael eu cyfeirio ato/i. Os cyfyd problem, dylid cael gafael ar yr holl ffeithiau perthnasol cyn gynted ag sy'n bosibl. Bydd y mudiad yn cefnogi'r gwirfoddolwr wrth iddo geisio datrys y broblem mewn modd anffurfiol. Os na ellir datrys y broblem mewn modd anffurfiol, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau disgyblu a chwyno ehangach y mudiad (maent yn cynnwys gwirfoddolwyr).

Hawliau a Chyfrifoldebau

Mae'r mudiad yn cydnabod hawl y gwirfoddolwyr:

- i gael gwybod yr hyn a ddisgwylir (a'r hyn na ddisgwylir) ohonynt
- i gael digon o gefnogaeth wrth wirfoddoli
- i gael eu canmol
- i gael amodau gweithio diogel
- i gael eu hyswirio
- i gael gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau os bydd rhywbeth yn mynd o'i le
- i gael mân dreuliau perthnasol
- i gael hyfforddiant priodol
- i beidio ag wynebu gwahaniaethu
- i gael cynnig y cyfle i ddatblygu'n bersonol

Mae'r mudiad yn disgwyl i wirfoddolwyr:

- fod yn ddibynadwy
- bod yn onest
- parchu cyfrinachedd
- gwneud yn fawr o gyfleoedd hyfforddi a chefnogi
- cyflawni tasgau mewn modd sy'n adlewyrchu nodau a gwerthoedd y mudiad
- gweithio o fewn y canllawiau y cytunwyd arnynt
- parchu gwaith y mudiad a pheidio â dwyn anfri arno
- cydymffurfio â pholisïau'r mudiad

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:05/05/2010

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk